

PREGETHU



WORSHIP & TEACHING

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



WORSHIP & TEACHING

Pregethu

PAM?

Mae diwinyddiaeth Gristnogol y Creu yn rhan hanfodol o'r ffydd Gristnogol. Mae Cristnogion yn credu mewn Duw a greodd rywbeth allan o ddim (ex nihilo), a bod y greadigaeth honno wedi ei rhoi am ddim, yn rhodd. Mae'r ddwy egwyddor ddiwinyddol sylfaenol hyn yn bwysig i ddiwinyddiaeth Gristnogol: Duw yw'r Creawdwr ac mae Duw yn rhoi am ddim. Mae Duw nid yn unig yn Dduw ar y ddynoliaeth, mae'n Greawdwr y cosmos cyfan. Wrth i ni agor ein llygaid fwy a mwy i'n cyd-ddallineb o ran sancteiddrwydd y greadigaeth, rydym yn dechrau gweld y berthynas bechadurus yr ydym wedi bod yn rhan ohoni gyda phopeth y mae Duw wedi ei greu a'i fendithio. Ar yr un pryd, rydym yn dechrau gweld y ddiwinyddiaeth, yr ysgrythur a'r ysbrydolrwydd oedd wedi ei guddio oddi wrthym. O'r pulpud ac mewn grwpiau dysgu gall ein cynulleidfaoedd ddod yn fwy goleuedig am y ffydd Gristnogol, sydd wedi ymwneud â llawer mwy erioed na dim ond y ddynoliaeth. Yn y fan honno y cânt eu harwain, eu haddysgu, eu hannog, eu hysbrydoli a'u galluogi i fyw pob agwedd o'u disgyblaeth Gristnogol. Pwy a wŷr pa weledigaethau allai gael eu deall drwy bregethu am oblygiadau llawn yr efengyl yn y ffordd yma?

SUT?

Mae digonedd o ddeunydd ysgrythurol i'n helpu i fframio cyfres bregethu/addysgu am y greadigaeth.

GENESIS 1 A 2

- Mae'r greadigaeth yn eiddo i Dduw; mae'n dda ac wedi ei bendithio gan Dduw. (Genesis 1:13).
- Dylem ni gynnal delwedd Duw yn y ffordd yr ydym yn trin y greadigaeth (Genesis 1:26).
- Rhoddodd Duw'r cyfrifoldeb i'r ddynoliaeth o ddefnyddio (nid camfanteisio ar) adnoddau'r ddaear ac edrych ar ei hôl (Genesis 2:15).
- Mae'r Sabath yn egwyddor integrol sy'n cael ei harfer gan Dduw, ac mae hynny wedi ei ddangos yn glir yng ngweithrediad y Creu ei hun: mae Duw yn gorffwyo, mae'r greadigaeth yn gorffwyo, mae'n gorchymyn i bobl orffwyo (Genesis 2:1-3).



WORSHIP & TEACHING

Pregethu

Gallwn ni ystyried bod yr egwyddor o orffwyo'n herio ein tybiaethau diwylliannol am gynhyrchiant, elw, cylch y flwyddyn, ein perthynas â'r greadigaeth a llawer iawn mwy. (Gwelwch hefyd Exodus 20:8-11; 23:10-12).

CYFAMOD

Mae cyfamod Duw gyda phopeth byw (Genesis 17:7-8), ac mae'r cosmos cyfan yn aros i gael ei adfer (Rhufeiniaid 8:19, 22-24). Rhoddir y gyfraith i bobl ddewisedig Duw ac mae'n disgrifio cyfyngiadau ar yr hyn y cânt ei gymryd o'r tir – er enghraifft, gwelwch Lefiticus 23:9-13. Er nad yw Cristnogion bellach yn byw o dan y gyfraith, mae crynodeb Iesu ohoni'n dal i fod yn berthnasol ac mae'r egwyddorion hynny o beidio cymryd mwy nag yr ydym ei angen, gan roi'r ffrwythau cyntaf i Dduw, gadael bwyd i'r tlawd a gadael i'r greadigaeth orffwyo, yn dal i gario gwersi pwysig i Gristnogion yn ein bywydau ni heddiw. O'r cyfamod byd-eang cyntaf, i'r cyfamod terfynol yng ngwaed yr Iesu, mae Cristnogion yn credu mai Duw sy'n diffinio'r cyfiawn a'r anghyfiawn. Mae'r Beibl yn dweud yn glir wrthym nad yw'r ddynoliaeth yn gallu gwneud y pethau cywir ar eu pennau eu hunain; mae angen i ni gael y gras a ddaw gyda Iesu Grist. Mae hyn yn wir hefyd mewn perthynas â'n hagwedd tuag at greadigaeth Duw.

GWERSI IESU

Porthi'r 5,000, dameg yr heuwr, Iesu'n gostegu'r storm, bedydd a themtasiwn yr Iesu, Iesu yw'r gwir winwydden... Ydych chi wedi sylwi mor aml mae gweinidogaeth yr Iesu'n digwydd yn yr awyr agored, a'i fod yn defnyddio trosiadau byd natur yn aml yn ei addysgu? Yn yr un modd, mae'r manau lle mae Iesu'n ymddangos ar ôl atgyfodi – ar y ffordd i Emaus, yn yr ardd (lle credwyd mai'r garddwr ydoedd), ar y traeth – yn dangos inni rywun sydd wrth ei fodd y tu allan, ym myd natur, yng nghreadigaeth ei Dad. Y rheswm am hyn yw bod Iesu'n rhan o'r greadigaeth honno, a hefyd yn Arglwydd arni ('Y mae hyd yn oed y gwyntoedd a'r môr yn ufuddhau iddo', Mathew 8.27). Dylai cysylltiad Iesu â phopeth sydd wedi ei greu ein tywys ni fel Cristnogion i ddatblygu bywydau ac arferion sy'n adlewyrchu cysylltiad dyfnach â'r greadigaeth gyfan, a thrugaredd dyfnach â hi.



WORSHIP & TEACHING

Pregethu

Y CREU YN LLYFR Y SALMAU

Salm 8: Duw fel creawdwr

Salm 24:1 Eiddo Duw yw'r holl greadigaeth

Salm 65: Diolchgarwch am haelioni'r ddaear

Salm 148: Moliant i Dduw gan bopeth byw

Y CREU A CHREADIGAETH NEWYDD

Yn debyg i benodau agoriadol Genesis, gallwn ni ddweud bod Colosiaid 1:15–20 yn sylfaen i ddiwinyddiaeth Gristnogol am y greadigaeth. Gwnaed y byd hwn, nid i'r ddynoliaeth, ond i Grist (adnod 16), ac mae maint yr achubiaeth a gawn am ei fod yntau wedi cymodi marwolaeth yn ymestyn i gynnwys 'y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd' (adnod 20). Bydd creadigaeth, wedi ei hadfer a'i hadnewyddu'n berffaith, yn cael ei datguddio pan ddaw Crist yn ei ôl (gwelwch hefyd Ddatguddiad 21:1–5). Hyd nes y daw'r amser hwnnw, mae dyletswydd ar Gristnogion i ddisgwyl dyfodiad y ddaear newydd sy'n 'disgyn o'r nef', a gweld sut beth yw bywyd yn nheyrnas Duw ymhob agwedd o'n bywyd, yn cynnwys gofalu am y greadigaeth.

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae Martin a Margot Hodson yn gefnogwyr brwd i A Rocha UK ac maen nhw'n cynnig gwybodaeth gefndirol ddefnyddiol yma: <http://www.hodsons.org/> Mae Margot wedi ei hordeinio ac yn gweithio fel Cyfarwyddwr Diwinyddiaeth ac Addysg ar gyfer Menter John Ray, sef elusen addysgol sy'n gweithio i gysylltu ffydd a'r amgylchedd: <http://jri.org.uk/>

Cafodd Sustainable Preaching <http://sustainable-preaching.org/> ei sefydlu i gysylltu Cristnogaeth, y Beibl a chynaliadwyedd. Trwy alw Cristnogion i ail ddarganfod gwreiddiau Beiblaidd cynaliadwyedd a'i arfer mewn bywyd pob dydd, maen nhw'n annog pregethu da ac yn postio awgrymiadau wythnosol am bregethau: <http://sustainable-preaching.org/sermon-suggestions/>



WORSHIP & TEACHING

Pregethu

Ffurfiwyd Equipping Christian Leadership in an Age of Science (ECLAS) ar sail yr argyhoeddiad bod gwyddoniaeth yn rhodd gan Dduw, ond bod arweinwyr Cristnogol yn brin o'r hyder a'r medrau yn aml iawn i ymgysylltu â chwestiynau gwyddonol. Mewn oes pan mae ffydd yn cael ei bortreadu yn aml iawn mewn gwrthgyferbyniad â gwyddoniaeth, maen nhw'n creu cyfleoedd i arweinwyr yr eglwys gysylltu â gwyddoniaeth a gwyddonwyr o'r radd flaenaf, a datblygu gwybodaeth ymarferol, ddeallus wedi ei seilio mewn diwinyddiaeth am y byd a'n lle ni ynddo: <https://www.eclasproject.org/science-for-seminaries/>

Gwrandewch ar Dave Bookless o A Rocha International yn pregethu ym mis Ionawr 2021 am newid hinsawdd yng nghyd-destun Covid-19 a'r uwchgynhadledd hinsawdd COP26 sydd ar y gweill yn Glasgow: <https://atyourservice.arocha.org/en/caring-for-gods-wounded-world/>

Mae Christian Climate Action yn cynnig pregethau a myfyrdodau ar weithredu uniongyrchol heb drais: <https://christianclimateaction.org/resources/sermons/>

LLYFRAU

'Green Reflections: Biblical inspiration for sustainable living' Martin Hodson a Margot Hodson, Bible Reading Fellowship, 2021

How to Celebrate Creation, Ian Tarrant, Grove Books, 2019

A Primer in Ecotheology: Theology for a Fragile Earth, Celia Deane-Drummond, Cascade Companions, 2017

Creation: A Guide for the Perplexed, Simon Oliver, Bloomsbury, 2017

A Greener Faith, Roger S. Gottlieb, Oxford University Press, 2011

The Land, Walter Brueggemann, Fortress Press, 2002



WORSHIP & TEACHING

Pregethu

Mae '*Laudato Si*', Pope Francis' Encyclical, 2015 ar gael i'w lawrlwytho o: <https://cafod.org.uk/Pray/Laudato-Si-encyclical>

ASTUDIAETHAU ACHOS

Bu'r Gwir Anrhydeddus Andrew Watson, Esgob Guildford, yn siarad ar Sul yr Hinsawdd 2020 [yma](#).
Gan ddefnyddio pedwar darn gwahanol o'r Beibl, mae'n gofyn i ni ystyried sut yr ydym yn byw yn wyneb her enfawr y newid hinsawdd ac yn gorffen gyda rhai awgrymiadau ymarferol iawn!

Mae'r gweinidog hwn o'r Unol Daleithiau'n esbonio pam y mae'n pregethu'n rheolaidd o stori Arch Noa am newid hinsawdd: <https://www.theguardian.com/environment/2021/apr/20/the-rev-scott-hardin-nieri-north-carolina-climate-action>